

CBAC TGAU Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru

Modern Cynnar

Adran A: Cymru a'r Tuduriaid cynnar, tua 1485-tua 1547

Adran B: Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603-tua 1660

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028



Cynnwys

Papur Cwestiynau	1
Cynllun Marcio	8
Grid mapio	29

SAMPLE

Hawlfraint

© WJEC CBAC Cyfyngedig 2024.



TGAU

3130NB0-1

**TGAU Hanes – Uned 1
Astudiaeth fanwl o hanes Cymru
1: Modern Cynnar**

**1 awr
DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL**

Deunyddiau ychwanegol

Llyfryn ateb pinc 16 tudalen CBAC.

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

Dylid ysgrifennu atebion i gwestiynau 3b, 4b / 7b, 8b mewn testun parhaus (brawddegau llawn a pharagraffau).

Defnyddiwch inc neu feiro du. **Peidiwch** â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb ar wahân. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar flaen eich llyfryn ateb.

Defnyddiwch ddwy ochr y papur.

Ysgrifennwch rif y cwestiwn yn y ddau flwch ar yr ochr chwith ar ddechrau pob ateb, er enghraifft

0	1
---	---

Gadewch o leiaf dwy linell rhwng pob ateb.

Gwybodaeth i ymgeiswyr

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl bod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

Gall y ffynonellau a ddefnyddir gynnwys geiriau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio'n gyffredin ac sydd bellach yn cael eu hystyried yn derminoleg ddifrifol. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu cyfnod a lleoliad fersiwn wreiddiol y ffynonellau hyn.

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

Adran A

1.3 Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547

0 1 Atebwch **bob** rhan o Gwestiwn 1.

Dewiswch yr atebion cywir i'r cwestiynau canlynol gan ddefnyddio'r tabl isod. **[5]**

- (a) Pryd digwyddodd Brwydr Stoke?
- (b) Ym mhle cynhaliwyd Cyngor y Gororau?
- (c) Pa deulu o arglwyddi'r Mers a achosodd broblemau i Harri VIII?
- (ch) Pa un o gynghorwyr Harri VIII oedd yn gyfrifol am ddiddymu'r mynachlogydd yng Nghymru a Lloegr?
- (d) Pwy benododd Harri VIII i fod yn gyfrifol am ddelio ag anrhefn yng Nghymru?

1487	Rowland Lee	Teulu'r Woodville
John Veysey	Llwydlo	Thomas Cromwell
Teulu'r Herbertiaid	Caer	1485

0 2 Esboniwch pam fod Harri, Iarll Richmond wedi hawlio gorsedd Lloegr. **[10]**

0 3 Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

(a) Disgrifiwch y problemau a oedd yn wynebu Harri VIII wrth geisio rheoli Cymru rhwng 1509 a 1531. **[5]**

(b) Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu i ddeall perthynas Harri VIII â Syr Rhys ap Gruffudd? **[15]**

Eitem 1	Huw Llywelyn Rees yn ysgrifennu ar ei flog personol ar Facebook <i>The History of Wales</i> (2021)
Roedd Syr Rhys ap Gruffudd yn feirniadol o berthynas Harri ag Anne Boleyn, ac yn cefnogi Catrin o Aragon a Cardinal Wolsey. Cafodd Rhys ei gyhuddo o frad gan Harri ar sail yr honiad iddo gynllwynio gydag Iago V o'r Alban i'w ddiorseddu a gwneud ei hun yn Dywysog Cymru. Cafwyd Rhys yn euog a dienyddiwyd ef.	

0 4 Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

(a) Rhowch amlinelliad o gefndir cyflwyno'r Deddfau Uno yn 1536 ac 1543. [5]

(b) I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod y Deddfau Uno wedi cael effaith gadarnhaol ar Gymru? [20]

Eitem 2	Lloyd Bowen, hanesydd, yn ysgrifennu yn ei werslyfr academaidd <i>Early Modern Wales c. 1536–1689</i> (2022)
Roedd y Cymry i fwynhau'r un hawliau a rhyddid â'r Saeson. Roedd siroedd a threfi mawr Cymru yn cael ethol Aelodau Seneddol i gynrychioli eu cymunedau yng nghanolfan y llywodraeth yn Llundain.	

Eitem 3	O Ddeddf Llywodraethu Cymru (1536)
Ni fydd unrhyw un sy'n defnyddio'r Gymraeg yn dal swydd yng Nghymru, Lloegr nac yn nhiriogaethau eraill y Brenin. Bydd yn rhaid i'r rhai sydd yn dal swyddi o'r fath roi'r gorau i'r swyddi hynny oni bai eu bod yn defnyddio'r Saesneg.	

DIWEDD ADRAN A

Trowch drosodd ar gyfer Adran B

Adran B

1.4 Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref tua 1603 - 1660

0 5 Atebwch **bob** rhan o Gwestiwn 5.

Dewiswch yr atebion cywir i'r cwestiynau canlynol gan ddefnyddio'r tabl isod. **[5]**

- (a) Pryd daeth y Tywysog Harri'n Dywysog Cymru?
- (b) Pwy oedd y Cymro dylanwadol yn ystod teyrnasiad Siarl I?
- (c) Pryd digwyddodd Brwydr Sain Ffagan?
- (ch) Pa enw a roddwyd i'r dynion a lofnododd y warant i ddiennyddio Siarl I?
- (d) Pwy oedd y milwr oedd yn rheoli Cymru'n uniongyrchol o 1655?

1648	Philip Jones	James Berry
Y Piwritaniaid	Y Teyrnleiddiaid	1610
John Owen	1642	Thomas Myddleton

0 6 Esboniwch pam y cafodd y frenhiniaeth ei hadfer yn 1660.
[10]

0 7 Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

(a) Disgrifiwch y problemau crefyddol sy'n wynebu Iago I yn ei deyrnasoedd.
[5]

(b) Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu ni i ddeall y rhesymau pam y cafodd Iago I broblemau wrth reoli ei deyrnasoedd?
[15]

Eitem 1	John Simkin, athro Hanes ac awdur, yn ysgrifennu mewn erthygl am y Brenin Iago VI o'r Alban a minnau o Loegr ar ei wefan <i>Spartacus Educational</i> (diweddarwyd 2020)
Y farn Seisnig oedd y dylid ymgorffori'r Alban yn rhan o Loegr, a barn yr Alban oedd y dylai'r ddwy deyrnas fod yn bartneriaid cyfartal. Roedd yr hanesydd cyfoes Syr Robert Cotton yn dadlau ar y pryd fod teyrnasoedd llai, cyn hynny, wedi ymuno i ddod yn deyrnas Lloegr, felly byddai'r teyrnasoedd llai o fewn Ynysoedd Prydain nawr yn dod ynghyd dan yr enw hynafol Prydain.	

0 8

Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

(a) Rhowch amlinelliad o rôl personél milwrol Cymru yn yr ymladd yn ystod y Rhyfel cartref. [5]

(b) I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod Cymru'n bwysig i'r Brenhinwyr yn ystod y Rhyfel Cartref? [20]

Eitem 2	Darn o adroddiad gan hysbyswyr a anfonwyd i Dŷ'r Cyffredin i ddarparu gwybodaeth i gadlywyddion byddin y Senedd (5 Ebrill 1644)
Rydym yn clywed bod 6 000 o wrthryfelwyr Gwyddelig wedi glanio yng Nghymru. Maen nhw'n ymddwyn yn greulon a milain. Oni bai bod cymorth yn cael ei anfon i'r Waun yn cyflym, bydd y wlad i gyd yn cael ei dinistrio gan y goresgynwyr Gwyddelig hyn.	

Eitem 3	Geraint Jenkins, athro Hanes Cymru, yn ysgrifennu yn ei lyfr academiaidd <i>The Foundations of Modern Wales 1642–1780</i> (1987)
O'r cychwyn cyntaf roedd hi'n hanfodol bwysig i'r brenin reoli'r gororau. Nid yn unig gallai Cymru roi cyfoeth, cyflenwadau a byddinoedd iddo, ond gallai hefyd gynnig llwybr i filwyr teyrngarol o lwerddon pe bai eu hangen. Roedd y Senedd yn benderfynol o dorri drwy rwystr Gorymdeithiau Cymru.	

DIWEDD Y PAPUR

CYNLLUN MARCIO

Canllawiau i arholwyr

Egwyddorion marcio generig

- Marciau cyfan (nid hanner marciau na ffracsiynau eraill) a roddir bob amser.
- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid rhoi marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn).
- Rhoddir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid rhoi marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc o sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae cynnwys '*Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall*' (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodir uchod, ni fwriedir i'r cynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac nid oes yn rhaid i ymgeiswyr gynnwys yr holl gynnwys dangosol er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hwn.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ymateb ym mand 2 yn bennaf ond yn cynnwys dim ond ychydig o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff arholwyr eu hatgoffa y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ymateb a roddwyd.

Cynllun marcio ar gyfer Adran A

Cwestiwn 1	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
(a)	Pryd digwyddodd Brwydr Stoke?				
	1487	1			1
(b)	Ym mhle cynhaliwyd Cyngor y Gororau?				
	Llwydlo	1			1
(c)	Pa deulu o arglwyddi'r Mers a achosodd broblemau i Harri VIII?				
	Teulu'r Herbertiaid	1			1
(ch)	Pa un o gynghorwyr Harri VIII oedd yn gyfrifol am ddiddymu'r mynachlogydd yng Nghymru a Lloegr?				
	Thomas Cromwell	1			1
(d)	Pwy benododd Harri VIII i fod yn gyfrifol am ddelio ag anrhefn yng Nghymru?				
	Rowland Lee	1			1

Cwestiwn 2		Cyfanswm y Marciau
Esboniwch pam fod Harri, Iarll Richmond wedi hawlio gorsedd Lloegr.		[10]
Cynnwys Dangosol		
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Prif honiad Harri, Iarll Richmond o'i hawl i orsedd Lloegr oedd ei fod yn etifedd i linach o frenhinoedd y Lancastriaid, gwrthwynebwyd yr lorciaid dan arweiniad y Brenin Rhisiart III. Roedd mam Harri, Margred Beaufort, yn ddisgynnydd i John o Gaunt, tad y Brenin Harri IV, brenin cyntaf y Lancastriaid. Byddai diflaniad neiaint Rhisiart III, a marwolaeth Rhisiart III ei hun yn cryfhau'r honiad i'r hawl hynafol hwn gan y gallai ddadlau mai ef oedd y perthynas byw agosaf i'r hen linach o frenhinoedd. - Cryfhawyd hawl Harri i'r orsedd gan gefnogaeth unigolion pwysig yn Lloegr i'w achos. Llwyddodd ei ewythr Jasper Tudor i ennill cefnogaeth i Harri pan laniodd yn Aberdaugleddau gan geisio herio Rhisiart III am yr orsedd. Roedd yr uchelwyr blaenllaw Thomas a William Stanley yn niwtral i ddechrau, ond roedd eu cefnogaeth, yn enwedig ar faes y gad yn Bosworth, yn hollbwysig wrth sicrhau hawl Harri i'r orsedd. - Roedd gan Harri hefyd hawl i'r orsedd trwy briodas, oherwydd ar ôl iddo drechu Rhisiart III ym Mrwydr Bosworth yn 1485, priododd ag Elisabeth o Efrog, merch rhagflaenydd Rhisiart III, Edward IV. Roedd hyn yn golygu mai ef oedd prif gynrychiolydd Teulu'r lorciaid a Theulu'r Lancastriaid, gan roi terfyn ar anghydfod Rhyfeloedd y Rhosynnod.		
Band	AA1	AA2
5	5 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol.	5 marc Cymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.
4	4 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir.	4 marc Cymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.

3	3 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg.	3 marc Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson.
2	2 farc Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth.	2 farc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd
1	1 marc Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth.	1 marc Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.	

Cwestiwn 3a	Cyfanswm y Marciau
Disgrifiwch y problemau a oedd yn wynebu Harri VIII wrth geisio rheoli Cymru rhwng 1509 a 1531.	[5]
Cynnwys Dangosol	
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Un o'r problemau oedd yn wynebu Harri VIII wrth reoli Cymru oedd ei bod wedi ei rhannu'n ddau fath gwahanol o diriogaeth – y rhai oedd dan reolaeth uniongyrchol y Goron, a'r rhai oedd dan reolaeth arglwyddi'r Mers a allai godi eu trethi eu hunain a hyd yn oed trefnu eu byddinoedd eu hunain. - Nid oedd Cyngor y Gororau, a sefydlwyd yn y bymthegfed ganrif i helpu brenhiniaeth Lloegr i reoli arglwyddi'r Mers, wedi bod yn effeithiol iawn a dyna pam yr oedd arglwyddi'r Mers fel yr Herbertiaid wedi gallu defnyddio eu pellter o Lundain i arfer rhywfaint o annibyniaeth. - Roedd llawer o ddrwgdeimlad ymhlith arglwyddi'r Mers ac uchelwyr eraill yng Nghymru ynghylch ymyrraeth frenhinol yn eu busnes. Pan gymerodd Harri VIII reolaeth ar un o'r ystadau mwyaf pwerus yng Nghymru, rhoddodd etifeddiaeth Syr Rhys ap Gruffudd i'r Arglwydd Ferrers, a oedd yn gyfaill ac yn gynghreiriad i'r Brenin. Yna gwrthryfelodd Syr Rhys ap Gruffudd yn erbyn Harri.	
Band	AA1
5	5 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol.
4	4 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir.
3	3 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg.
2	2 marc Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth.
1	1 marc Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.

Cwestiwn 3b		Cyfanswm y Marciau
	Pa mor werthfawr yw Eitem 1 i'n helpu i ddeall perthynas Harri VIII â Syr Rhys ap Gruffudd? Eitem 1: Huw Llywelyn Rees yn ysgrifennu ar ei flog personol ar Facebook <i>The History of Wales</i> (2021) Roedd Syr Rhys ap Gruffudd yn feirniadol o berthynas Harri ag Anne Boleyn, ac yn cefnogi Catrin o Aragon a Cardinal Wolsey. Cafodd Rhys ei gyhuddo o frad gan Harri ar sail yr honiad iddo gynllwynio gydag Iago V o'r Alban i'w ddiorseddu a gwneud ei hun yn Dywysog Cymru. Cafwyd Rhys yn euog a dienyddiwyd ef.	[15]
Cynnwys Dangosol		
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Mae'r eitem yn werthfawr i'n helpu ni i ddeall y berthynas rhwng Harri VIII a Syr Rhys ap Gruffudd gan ei fod yn esbonio bod Syr Rhys ap Gruffudd wedi bod yn feirniadol iawn o bwy ddewisodd Harri VIII yn wraig iddo. Fodd bynnag, mae ei werth yn gyfyngedig, oherwydd yr hyn nad yw'n ei ddweud wrthym am hyn yw bod Syr Rhys wedi gwrthryfela yn erbyn penderfyniad Harri VIII i roi etifeddiaeth ei dad-cu i'w wrthwynebydd, yr Arglwydd Ferrers - Mae gwerth i'r eitem hefyd gan ei bod yn nodi bod Harri VIII wedi dienyddio Syr Rhys ap Gruffudd am frad. Ond mae hyn hefyd yn cael ei danseilio gan ddiffyg esboniad o drafferthion Harri VIII gyda nifer o arglwyddi'r Mers yng Nghymru a'i fod yn ceisio defnyddio gwahanol ddulliau i gynyddu ei ddylanwad yno, yn yr achos hwn drwy ffafrio cefnogwr mewn anghydfod cyfreithiol. - Mae'n bosibl bod y wybodaeth y mae'r eitem hon – sy'n ddehongliad – yn ei chynnwys yn gywir, os yw'r awdur Huw Llywelyn Rees wedi ymchwilio'n fanwl i'r pwnc. Serch hynny, gan ei fod yn dod o'i dudalen Facebook bersonol, nid oes unrhyw wybodaeth ynglŷn â sut y daeth o hyd i'r wybodaeth hon. - Gellir awgrymu hefyd fod gwerth y dehongliad yn cael ei gyfoethogi gan ddiddordeb amlwg yr awdur yn hanes Cymru gan mai dyna yw teitl ei dudalen Facebook. Ar y llaw arall, gallai'r farn a fynegwyd gael ei thanseilio gan mai postiad ar y cyfryngau cymdeithasol yw hwn heb unrhyw arwydd o ble y daeth y wybodaeth na'r gwaith ymchwil a wnaed i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth honno. - Ar y cyfan, gellid awgrymu bod yr eitem yn werthfawr gan ei bod yn rhoi gwybodaeth am y rhesymau pam fod y berthynas rhwng Syr Rhys ap Gruffudd a Harri VIII yn un gwael. Gellir dadlau bod ffactorau cyfyngol fel diffyg gwybodaeth gefndirol neu ei fod yn bostiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn ei wneud yn llai, yn hytrach nag yn fwy, gwerthfawr i'n helpu ni i ddeall y mater hwn.		

Band	AA2	AA3
5	5 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	9–10 marc - Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd. - Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr. - Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus.
4	4 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	7–8 marc - Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd. - Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth. - Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus.
3	3 marc Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson.	5–6 marc - Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb. - Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth.
2	2 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd	3–4 marc - Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau. - Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth.
1	1 marc Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	1–2 marc - Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau. - Barn arwynebol wedi'i chyrraedd.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.	

Cwestiwn 4a	Cyfanswm y Marciau
Rhowch amlinelliad o gefndir cyflwyno'r Deddfau Uno yn 1536 ac 1543.	[5]
Cynnwys Dangosol	
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Nid oedd rheolaeth Lloegr dros Gymru yn unffurf gan fod rhai rhannau o Gymru yn cael eu rheoli gan Arglwyddi lled-annibynnol y Mers. Roedd Harri VIII yn pryderu bod yr arglwyddi hyn yn mynd yn rhy bwerus, ond hefyd eu bod yn methu â chynnal cyfraith a threfn sef y prif reswm dros roi grym iddynt. Anfonwyd Rowland Lee i geisio adfer cyfraith a threfn yng Nghymru. - Roedd Harri VIII hefyd yn pryderu na fyddai Arglwyddi'r Mers yn gorfodi Diwygiad Harri VIII yn iawn ac y gallai Cymru ddod yn ganolfan i wrthwynebu'r newidiadau hyn. Gallai hyd yn oed fod wedi dod yn ganolbwynt ymosodiad o dramor i wrthdroi'r Diwygiad Protestannaidd. - Roedd gan gynghorydd Harri, Thomas Cromwell, gynllun i gynyddu grym y brenin drwy roi pob rhan o Gymru o dan reolaeth y Brenin yn fwy uniongyrchol. Byddai'r system newydd yn golygu y byddai'r llywodraeth a'r system gyfiawnder yr un fath yng Nghymru ac yn Lloegr.	
Band	AA1
5	5 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol.
4	4 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir.
3	3 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg.
2	2 marc Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth.
1	1 marc Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.

Cwestiwn 4b		Cyfanswm y Marciau
	I ba raddau mae Eitem 2 ac Eitem 3 yn eich perswadio bod y Deddfau Uno wedi cael effaith gadarnhaol ar Gymru? Eitem 2: Lloyd Bowen, hanesydd, yn ysgrifennu yn ei werslyfr academiaidd <i>Early Modern Wales c.1536–1689</i> (2022) Roedd y Cymry i fwynhau'r un hawliau a rhyddid â'r Saeson. Roedd siroedd a threfi mawr Cymru yn cael ethol Aelodau Seneddol i gynrychioli eu cymunedau yng nghanolfan y llywodraeth yn Llundain. Eitem 3: Wedi'i addasu o Ddeddf Llywodraethu Cymru (1536) Ni fydd unrhyw un sy'n defnyddio'r Gymraeg yn dal swydd yng Nghymru, Lloegr nac yn nhiriogaethau eraill y Brenin. Bydd yn rhaid i'r rhai sydd yn dal swyddi o'r fath roi'r gorau i'r swyddi hynny oni bai eu bod yn defnyddio'r Saesneg.	[20]
Cynnwys Dangosol		
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Gallai'r eitemau ein perswadio bod y Deddfau Uno wedi cael effaith gadarnhaol ar Gymru, er eu bod yn cynnig safbwyntiau gwahanol ar y mater hwn. Mae Eitem 2 yn cyfeirio at yr hawliau gwleidyddol a gafodd y Cymry o ganlyniad i'r Deddfau Uno, yn enwedig cynrychiolaeth yn y Senedd. Caiff hyn ei wrth-ddweud yn Eitem 3, sy'n dangos y byddai'n rhaid i bob swyddog gynnal eu busnes trwy gyfrwng y Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg. - Fodd bynnag, mae'r syniad bod y Deddfau Uno wedi rhoi diwedd ar yr anhrefn a oedd yn fwrn ar ardaloedd yng Nghymru dan reolaeth arglwyddi'r Mers a bod cyfiawnder mwy effeithiol ar gael i bawb yng Nghymru, yn dwyn mwy o berswâd. - Byddai eitem 2, sy'n ddehongliad modern, yn gallu cynnig trosolwg o'r cyfnod. Wedi'i ysgrifennu gan hanesydd, gellir dadlau ei fod yn cynnig dadansoddiad credadwy o effaith y Ddeddf Uno, gyda'r cafeat mai trosolwg o'r cyfnod y mae'n ei roi gan ei fod yn llyfr academiaidd sy'n ymdrin â hanes Cymru rhwng 1536 a 1689. Fodd bynnag, gan ei fod yn canolbwyntio ar Gymru yn y cyfnod hwn mae'n debygol bod yr awdur yn deall cefndir y Deddfau Uno yn ogystal â'u heffeithiau tymor byr a hirdymor. - Mae eitem 3, ar y llaw arall, yn ffynhonnell gyfoes, ac mae'r ddadl bod y Deddfau Uno wedi cael effaith negyddol ar Gymru yn cael ei hategu gan yr awgrym na fyddai siaradwyr Cymraeg yn gallu dod yn swyddogion yng ngweinyddiaeth newydd Cymru. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn cael ei nodi, er bod siarad Saesneg yn hanfodol i fod yn weinyddwr, nad oedd siarad Cymraeg yn cael ei wahardd. Gellir nodi hefyd, gan fod hyn yn dod o 1536, mai dim ond disgrifiad rhannol o'r Deddfau Uno y gall Eitem 3 ei ddarparu gan nad yw'n rhoi unrhyw arwydd o'r hyn a ddigwyddodd pan gawsant eu gweithredu.		

- Mae'n debygol y bydd casgliad, ar y cyfan, ei bod yn bosibl ein perswadio naill ai bod yr eitemau yn cefnogi neu ddim yn cefnogi'r ddadl bod yr effaith ar Gymru wedi bod yn gadarnhaol, neu fod yr effeithiau yn gadarnhaol mewn ambell ffordd ac yn negyddol mewn ffyrdd eraill.

Band	AA2	AA3
5	9–10 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	9–10 marc - Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd. - Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr. - Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus.
4	7–8 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	7–8 marc - Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd. - Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth. - Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus.
3	5–6 marc Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson.	5–6 marc - Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb. - Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth.
2	3–4 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd	3–4 marc - Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau. - Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth.
1	1–2 marc Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	1–2 marc - Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau. - Barn arwynebol wedi'i chyrraedd.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.	

Cynllun marcio ar gyfer Adran B

Cwestiwn 5	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
(a)	Pryd daeth y Tywysog Harri'n Dywysog Cymru?				
	1610	1			1
(b)	Pwy oedd y Cymro dylanwadol yn ystod teyrnasiad Siarl I?				
	John Owen	1			1
(c)	Pryd digwyddodd Brwydr Sain Ffagan?				
	1648	1			1
(ch)	Pa enw a roddwyd i'r dynion a lofnododd y warant i ddienyddio Siarl I?				
	Y Teyrnleiddiaid	1			1
(d)	Pwy oedd y milwr oedd yn rheoli Cymru'n uniongyrchol o 1655?				
	James Berry	1			1

Cwestiwn 6			Cyfanswm y Marciau
Esboniwch pam y cafodd y frenhiniaeth ei hadfer yn 1660.			[10]
Cynnwys Dangosol			
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.			
- Un o'r rhesymau pwysicaf dros Adferiad 1660 oedd bod gwleidyddion yn methu cytuno pwy ddylai gymryd yr awenau ar ôl i Cromwell farw yn 1658. Olynodd Richard ei dad Oliver Cromwell fel rheolwr y weriniaeth. Roedd ei wrthwynebwyr yn ymwybodol iawn o'r eironi bod y dyn a oedd wedi gwrthwynebu'r syniad o ddychwelyd i frenhiniaeth mor chwyrn wedi dymuno i'w fab ei olynu. Nid oedd Richard yn addas iawn i fod yn arweinydd, felly dechreuodd Arglwyddi ac ASau gynllwynio yn ei erbyn. Ymddiswyddodd Richard Cromwell yn gyflym a dychwelyd ei bwerau i'r Senedd. - Nid anghytuno ynghylch pwy ddylai redeg y Weriniaeth yn unig oedd hyn, gan fod y sefyllfa hon bellach yn rhoi gobaith i'r rhai a oedd wedi parhau i gefnogi'r frenhiniaeth, hyd yn oed ar ôl i'r Brenhinwyr gael eu trechu. Roedd cefnogaeth i frenhiniaeth y Stiwartiaid wedi parhau ymhlith llawer o uchelwyr Cymreig a phobl gyffredin Cymru drwy gydol cyfnod y Weriniaeth. Gellir gweld cefnogaeth i'r Stiwartiaid yng Nghymru yn natganiad Thomas Myddleton o'r Waun, cyn-gefnogwr Seneddol a ddadrithiwyd ar ôl dienyddiad y brenin a rheolaeth lem Gweriniaeth Cromwell, yn 1659 fod Siarl II yn frenin cyfiawn. - Yn olaf, dan arweiniad Cadfridog Monck, trechodd cefnogwyr y Brenhinwyr yr ASau oedd yn ceisio parhau â'r Weriniaeth, a gwahodd Siarl II i ddychwelyd yn frenin. Yn Natganiad Breda, addawodd Siarl II bardwn i'r rhai oedd wedi gwrthwynebu ei dad fel na fyddai'n wynebu gwrthwynebiad ganddynt pan ddychwelodd o fod yn alltud yn yr Iseldiroedd. Cafodd Siarl II ei ddatgan yn frenin gan y Senedd, gan ddychwelyd i Lundain i gael ei goroni yn 1660.			
Band	AA1	AA2	
5	5 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol.	5 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	
	4 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir.	4 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	

3	3 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg.	3 marc Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson.
2	2 farc Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth.	2 farc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd
1	1 marc Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth.	1 marc Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.	

Cwestiwn 7a	Cyfanswm y Marciau
Disgrifiwch y problemau crefyddol sy'n wynebu lango l yn ei deyrnasoedd.	[5]
Cynnwys Dangosol	
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Roedd crefydd yn un o'r problemau a wynebodd lango wrth reoli ei deyrnasoedd gan fod ei ymdrechion i ddod â'r gwahanol ganghennau crefyddol yn ei wahanol deyrnasoedd at ei gilydd wedi gelyniaethu eithafwyr ar y ddwy ochr. Cyflwynodd fersiwn newydd o'r Beibl yn 1611 i geisio datrys y problemau hyn. - Roedd y Catholigion wedi eu cythruddo gan eu bod yn parhau i gael dirwy am beidio â mynychu gwasanaethau eglwysig Protestannaidd ac arweiniodd hynny at Gynllwyn y Powdwr Gwn, ymgais gan grŵp o derfysgwyr Catholig i ladd y Brenin ac achosi ffrwydrad yn Nhŷ'r Arglwyddi er mwyn ailsefydlu rheolaeth Gatholig yn Lloegr. - Roedd y Piwritaniaid wedi eu cythruddo gan fod Beibl y Brenin lango wedi ei orfodi arnynt, fersiwn newydd swyddogol nad oeddent yn hoff ohono, a oedd i'w ddefnyddio ym mhob eglwys. Roedd hyn yn broblem i lango yn yr Alban yn arbennig gan fod mwyafrif helaeth o bobl yr Alban yn aelodau o eglwys Biwritanaidd y wladwriaeth.	
Band	AA1
5	5 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol.
4	4 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir.
3	3 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg.
2	2 marc Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth.
1	1 marc Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.

Cwestiwn 7b	Cyfanswm y Marciau
Pa mor werthfawr yw Eitem 1 i'n helpu ni i ddeall y rhesymau pam y cafodd Iago I broblemau wrth reoli ei deyrnasoedd? Eitem 1: John Simkin, athro Hanes ac awdur, yn ysgrifennu mewn erthygl am y Brenin Iago VI o'r Alban a'r Brenin Iago I o Loegr ar ei wefan <i>Spartacus Educational</i> (diweddarwyd 2020) Y farn Seisnig oedd y dylid ymgorffori'r Alban yn rhan o Loegr, a barn yr Alban oedd y dylai'r ddwy deyrnas fod yn bartneriaid cyfartal. Roedd yr hanesydd cyfoes Syr Robert Cotton yn dadlau ar y pryd fod teyrnasoedd llai, cyn hynny, wedi ymuno i ddod yn deyrnas Lloegr, felly byddai'r teyrnasoedd llai o fewn Ynysoedd Prydain nawr yn dod ynghyd dan yr enw hynafol Prydain.	[15]
Cynnwys Dangosol	
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Mae'r eitem yn werthfawr i'n helpu i ddeall y rhesymau pam y cafodd Iago I broblemau wrth reoli ei deyrnasoedd gan ei fod yn egluro bod Iago eisiau trin ei ddwy deyrnas fel un deyrnas, yr oedd am ei galw'n Brydain. Fodd bynnag, mae ei werth yn gyfyngedig gan nad yw'n rhoi unrhyw arwydd o farn gwleidyddion eraill ar y mater hwn o sut i drin teyrnasoedd Lloegr a'r Alban nawr eu bod dan reolaeth yr un brenin. - Mae gwerth i'r eitem hefyd gan ei bod yn nodi y dylid trin Lloegr a'r Alban fel partneriaid cyfartal, ond mae hyn hefyd yn cael ei danseilio gan rym cynyddol a chyfoeth Lloegr o'i gymharu â'r Alban, gan olygu y byddai cynllun i'w trin yn gyfartal yn debygol o fethu. - Mae'r wybodaeth y mae'r eitem hon – sy'n ddehongliad – yn ei chynnwys yn gywir, fel y gellid ei ddisgwyl gan athro Hanes ac awdur a fyddai wedi gwneud gwaith ymchwil cyn ysgrifennu a chyhoeddi'r wybodaeth hon ar-lein. Fodd bynnag, mae'n fyr ac mae diffyg manylion fel y gellid ei ddisgwyl ar wefan addysgol. - Gellir awgrymu hefyd bod gwerth y dehongliad yn cael ei gyfoethogi gan ei fod yn dod o wefan sy'n ymwneud yn benodol ag addysg hanes, sy'n awgrymu y byddai'r awdur wedi ceisio sicrhau fod y wybodaeth mor gywir a pherthnasol â phosibl. Ar y llaw arall, gall y safbwyntiau a fynegwyd gael eu tanseilio gan yr angen i symleiddio'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer cynulleidfa addysgol. - Ar y cyfan, gellid awgrymu bod yr eitem yn werthfawr gan ei bod yn rhoi barn addysgwr ar hanes y problemau oedd yn wynebu Iago I wrth geisio delio â'r ddwy deyrnas yr oedd bellach yn eu rheoli. Neu, gellir dadlau bod ffactorau cyfyngol fel y ffaith ei fod wedi'i hysgrifennu at ddibenion addysg yn ei gwneud yn llai, yn hytrach nag yn fwy, gwerthfawr er mwyn ein helpu ni i ddeall y mater hwn.	

Band	AA2	AA3
5	5 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	9–10 marc - Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd. - Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr. - Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus.
4	4 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	7–8 marc - Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd. - Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth. - Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus.
3	3 marc Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson.	5–6 marc - Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb. - Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth.
2	2 marc Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd	3–4 marc - Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau. - Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth.
1	1 marc Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	1–2 marc - Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau. - Barn arwynebol wedi'i chyrraedd.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.	

Cwestiwn 8a	Cyfanswm y Marciau
Rhowch amlinelliad o rôl personél milwrol Cymru yn yr ymladd yn ystod y Rhyfel Cartref.	[5]
Cynnwys Dangosol	
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Roedd llawer o'r dynion o Gymru fu'n ymladd yn y Rhyfel Cartref yn ymladd ar ochr y Brenhinwyr. Lladdwyd 1000 o filwyr o Gymru ym mrwydr Edgehill, er nad oedd canlyniad y frwydr yn glir a phendant. Chwaraeodd milwyr o Gymru ran bwysig ym mrwydr gyntaf Newbury yn 1643, er bod canlyniad y frwydr hon hefyd yn ansicr. - Roedd y tîrfeddianwyr o Gymru a gymerodd ran yn y Rhyfel Cartref yn annog pobl i ymuno â byddin y Brenin yn bennaf, er bod llawer o gefnogaeth i'r Senedd yn Sir Benfro ac ymhlith piwritaniaid fel Thomas Myddleton o Gastell y Waun. - Roedd dynion o Gymru yn cael eu cyflogi fel milwyr traed ym mrwydr y Rhyfel Cartref lle byddent yn ymladd naill ai fel picellwyr neu fysgedwyr.	
Band	AA1
5	5 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol.
4	4 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir.
3	3 marc Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg.
2	2 marc Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth.
1	1 marc Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth.
0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.

Cwestiwn 8b		Cyfanswm y Marciau
	I ba raddau mae Eitem 2 ac Eitem 3 yn eich perswadio bod Cymru'n bwysig i'r Brenhinwyr yn ystod y Rhyfel Cartref? Eitem 2: Darn o adroddiad gan hysbyswyr a anfonwyd i Dŷ'r Cyffredin i ddarparu gwybodaeth i gadlywyddion byddin y Senedd (5 Ebrill 1644) Rydym yn clywed bod 6 000 o wrthryfelwyr Gwyddelig wedi glanio yng Nghymru. Maen nhw'n ymddwyn yn greulon a milain. Oni bai bod cymorth yn cael ei anfon i'r Waun yn cyflym, bydd y wlad i gyd yn cael ei dinistrio gan y goresgynwyr Gwyddelig hyn. Eitem 3: Geraint Jenkins, athro Hanes Cymru, yn ysgrifennu yn ei lyfr academiaidd <i>The Foundations of Modern Wales 1642–1780</i> (1987) O'r cychwyn cyntaf roedd hi'n hanfodol bwysig i'r brenin reoli'r gororau. Nid yn unig gallai Cymru roi cyfoeth, cyflenwadau a byddinoedd iddo, ond gallai hefyd gynnig llwybr i filwyr teyrngarol o lwerddon pe bai eu hangen. Roedd y Senedd yn benderfynol oresgyn rhwystr Y Gororau.	[20]
Cynnwys Dangosol		
Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol. - Mae'r eitemau'n dwyn perswâd gan fod y ddau yn awgrymu bod Cymru o bwys strategol yn ystod y Rhyfel Cartref. Mae Eitem 2 yn cyfeirio at Gymru fel y llwybr i gefnogwyr y Brenhinwyr o lwerddon gyrraedd tir mawr Prydain. Nodir hyn hefyd yn Eitem 3, sy'n dangos nid yn unig bod Cymru'n llwybr i'r Gwyddelod ymuno â'r rhyfel, ond bod y Brenin hefyd yn gallu cael cyflenwadau a milwyr eraill o Gymru. - Fodd bynnag, mae'r syniad mai cestyll Cymru oedd yn cynnig cadarnleoedd i'r Brenhinwyr oedd bwysicaf yn strategol, neu'r syniad mai cryfder y lluoedd yr oedd seneddswyr fel Thomas Myddleton o'r Waun yn gallu eu rheoli oedd bwysicaf yn strategol, yn dwyn mwy o berswâd. - Mae Eitem 2 yn ffynhonnell gyfoes, ac mae'r ddadl bod Cymru'n strategol bwysig i'r Brenhinwyr yn cael ei hategu gan yr awgrym bod y seneddswyr yn pryderu am effaith Cymru fel man glanio i gefnogwyr Gwyddelig y brenin. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn cael ei nodi mai adroddiad i'r Senedd yw Eitem 2 i lywio sut y dylai ei luoedd fod yn ymladd y rhyfel a gallai fod yn adroddiad cywir o bryder gwirioneddol, er nad yw'n glir pa mor gywir oedd yr adroddiad o'r bygythiad hwn gan lwerddon. Gellir nodi hefyd, mai disgrifiad rhannol yn unig gall Eitem 2 ei roi o rôl Cymru yn y Rhyfel Cartref gan ei fod yn dod o adroddiad seneddwr.		

- Mae Eitem 3, ar y llaw arall, yn ddehongliad modern a fyddai'n gallu cynnig trosolwg o'r cyfnod. Wedi'i ysgrifennu gan hanesydd, gellir dadlau ei fod yn cynnig dadansoddiad credadwy o bwysigrwydd strategol Cymru yn ystod y Rhyfel Cartref, gyda'r cafeat mai trosolwg yn unig y mae'n ei roi o hanes Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw, gan ei fod mewn gweryslyfr sy'n ymdrin â hanes Cymru dros gyfnod o bron i 150 o flynyddoedd. Mae'n debygol y bydd yr awdur yn deall rôl Cymru yn y rhyfel, beth bynnag.
- Ar y cyfan, mae'r eitemau yn dwyn perswâd bod Cymru yn strategol bwysig i'r Brenhinwyr yn ystod y Rhyfel Cartref, gan eu bod yn nodi ei bod yn brif ffynhonnell ar gyfer cyflenwadau ac adnoddau llafur, yn ogystal â bod yn llwybr ar gyfer cefnogwyr o lwerddon. Mae'n debygol y bydd casgliad bod Cymru yn strategol bwysig i'r Brenhinwyr, er nad oedd hyn yn ddigon i'w helpu i ennill.

Band	AA2	AA3
5	9–10 marc • Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	9–10 marc • Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd. • Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr. • Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus.
4	7–8 marc • Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	7–8 marc • Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd. • Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth. • Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus.
3	5–6 marc • Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson.	5–6 marc • Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb. • Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth.
2	3–4 marc • Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd	3–4 marc • Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau. • Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth.
1	1–2 marc • Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.	1–2 marc • Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau. • Barn arwynebol wedi'i chyrraedd.

CBAC TGAU Hanes Uned 1 Modern Cynnar Asesiad Allanol Enghreifftiol

0	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb.
---	---

SAMPLE

Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 1.3

Cwestiwn	Marciau	Cynnwys y fanyleb																													
		1.3.1						1.3.2						1.3.3						1.3.4						1.3.5					
		1.3.1ai	1.3.1aii	1.3.1bi	1.3.1bii	1.3.1ci	1.3.1cii	1.3.2ai	1.3.2aii	1.3.2bi	1.3.2bii	1.3.2ci	1.3.2cii	1.3.3ai	1.3.3aii	1.3.3bi	1.3.3bii	1.3.3ci	1.3.3cii	1.3.4ai	1.3.4aii	1.3.4bi	1.3.4bii	1.3.4ci	1.3.4cii	1.3.5ai	1.3.5aii	1.3.5bi	1.3.5bii	1.3.5ci	1.3.5cii
1	5			x					x						x							x									
2	10	x	x																												
3a	5													x	x																
3b	15																	x	x												
4a	5																									x	x				
4b	20																									x	x	x	x	x	x
Cyfanswm	60																														

Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 1.4

Cynnwys y fanyleb																															
Cwestiwn	Marciau	1.4.1						1.4.2						1.4.3						1.4.4						1.4.5					
		1.4.1ai	1.4.1aii	1.4.1bi	1.4.1bii	1.4.1ci	1.4.1cii	1.4.2ai	1.4.2aii	1.4.2bi	1.4.2bii	1.4.2ci	1.4.2cii	1.4.3ai	1.4.3aii	1.4.3bi	1.4.3bii	1.4.3ci	1.4.3cii	1.4.4ai	1.4.4aii	1.4.4bi	1.4.4bii	1.4.4ci	1.4.4cii	1.4.5ai	1.4.5aii	1.4.5bi	1.4.5bii	1.4.5ci	1.4.5cii
5	5		x										x						x						x		x				
6	10																													x	x
7a	5				x																										
7b	15					x	x																								
8a	5												x	x																	
8b	20															x	x														
Cyfanswm	60																														

Hawlfraint

Mae'r eitemau a ddefnyddir yn yr adnodd hwn yn cael eu defnyddio at ddibenion addysgiadol (nad ydynt yn fasnachol) yn unig, i hwyluso'r dysgu ac ar gyfer dadansoddi critigol. Darparwyd ffurflen gydnabyddiaeth ar gyfer pob eitem. Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r holl eitemau'n cael eu defnyddio mewn cydymffurfiaeth â'r Polisi Defnydd Teg; os oes hepgoriadau neu anghywirdebau, rhwch wybod i ni fel ein bod yn gallu gwneud unrhyw gywiriadau angenrheidiol. datblygucymwysterau@cbac.co.uk